**EITEM AR YR AGENDA: 7**

**PWYLLGOR SAFONAU**
**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**10 Gorffennaf 2013**

**CYHOEDDI BUDDIANNAU'R AELODAU AR-LEIN**

**Adroddiad gan Gareth Owens, Dirprwy Glerc i'r Awdurdod**

## Diben yr Adroddiad

1. Ystyried cyhoeddi'r gofrestr gyhoeddus gyfredol o fuddiannau'r aelodau ar-lein.

## Cefndir

2. Mae'n ofynnol i Gynghorwyr gofnodi a chofrestru rhai materion gyda'r Swyddog Monitro:
    - O dan Adran 81 o Deddf Llywodraeth Leol 2000, rhaid i gynghorwyr gofnodi buddiannau ariannol a buddiannau eraill megis daliadau tir ac aelodaeth o gymdeithasau
    - O dan baragraff 11(4) o'r cod, rhaid i gynghorwyr gadarnhau yn ysgrifenedig i mi beth yw manylion unrhyw fuddiant a ddatganwyd ar lafar mewn cyfarfod
    - O dan baragraff 17 o'r cod, rhaid i gynghorwyr roi gwybod i mi cyn pen 28 niwrnod ar ôl derbyn unrhyw rodd, lletygarwch, buddiant materol neu fantais a'i werth yn fwy na £10

3. Rhaid i'r Awdurdod Tân sicrhau bod copïau o'r cofnodion hyn ar gael yn un o swyddfeydd yr Awdurdod i'w harchwilio gan aelodau o'r cyhoedd ar bob awr resymol. Hyd yma, mae hyn wedi golygu bod y ffurflenni'n cael eu cadw gan y Tîm Gwasanaethau Pwyllgorau a'u dangos i aelodau'r cyhoedd ar gais.

4. Awgrymodd Llywodraeth Cymru y dylai'r "gofrestr" gael ei chyhoeddi ar-lein. Cefnogwyd yr awgrym hwn gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar 22ain Chwefror (gweler y llythyr atodedig gan Carl Sargeant AC dyddiedig 15fed Ionawr 2013). Yn anffodus, nid oedd yr ohebiaeth yn nodi a oedd y term "cofrestr" yn cynnwys pob un o'r 3 chategori uchod ynteu dim ond y gofrestr o dan Adran 81 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000.

**Ystyriaethau**

5. Er y byddai'n bosibl rhoi unrhyw un, neu bob un, o'r categorïau gwybodaeth ar y wefan, byddai angen edrych rhagor ar hyn er mwyn gweld pa newidiadau y byddai angen eu gwneud i'r wefan ei hun. Hefyd, byddai angen penderfynu a fyddai angen aildeipio'r ffurflenni ynteu a fyddai modd sganio'r ffurflenni a gyflwynir.

6. Drwy gyhoeddi buddiannau cofrestredig fel hyn, byddai'n haws i'r cyhoedd edrych ar y gofrestr ac ni fyddent yn cael mynediad at unrhyw wybodaeth nad oes ganddynt eisoes.

7. Os yw'r Awdurdod Tân yn dewis gwneud hyn o'i wirfodd, gall benderfynu pa un neu rai o'r 3 chategori i'w cyhoeddi. Oherwydd bod datganiadau o fuddiant yn cael eu cynnwys yng nghofnodion cyfarfodydd (sydd eisoes ar-lein) byddwn yn awgrymu mai'r gofrestr o dan Adran 81 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 a hysbysiadau o roddion ddylai gael eu cyhoeddi fel hyn.

**Argymhelliad**

8. Edrych ar y mater, a bod adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Panel Gweithredol i'w ystyried ymhellach.